

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Hydref 1af 2019 yn Neuadd Derfel. Yn bresennol oedd Rita Jones (Cadeiryddes), Maldwyn Jones, Gwynedd Jones, Eilir Rowlands, Meilir Jones, Alwyn Jones a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Morris, Eifion Davies, Iolo Evans, Dewi Pritchard, Gwenda Evans, Gary Thomas a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

v) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Cyngorydd newydd i Ward Llanfor.

Derbyniwyd llythyr o ddi-ddordeb gan Bethan Thomas, Gwynant, Frongoch. Cytunwyd i'w gyfethol a'i gwahodd i'r cyfarfod ym mis Tachwedd.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

i) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd ar gyfer mis Hydref.

b) Un Llais Cymru

i) Diweddaru'r Model Reoliadau Ariannol - adroddodd y Clerch fod mân newidiadau wedi cael ei wneud i'r fersiwn cyfredol y Cyngor. Cytunwyd i fabwysiadu'r Reoliadau Ariannol newydd.

ii) Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016 - Dyletswydd Cyngorau Chymuned a Thref o dan Adran 6 Amrywiol. Mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Cyngorau Cymuned & Thref) o dan Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016 Adran 6 i baratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu'r hyn y bwriadant ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i Gynnal a Chryfhau Bioamrywiaeth o fewn eu meysydd gwaith presennol. Cytunwyd i ail edrych ar hyn cyn gynted a fyddai'r 'Canllaw Arfer Da a Chanllaw Adroddiadau' yn cael eu dosbarthu i Gyngorau Cymuned & Thref.

c) Amrywiol.

i) Plaid Cymru - cais am gefnogaeth i gael canolfan ddiagnosis canser yng Ngwynedd. Cytunwyd i ddatgan cefnogaeth y Cyngor i'r cynllun.

ii) Triathalon Y Bala 2020 - derbyniwyd e-bost yn cadarnhau y byddai'r triathalon yn cael ei gynnal ym mis Medi yn 2020 a chafwyd amlinelliad o'r cynlluniau. Cytunwyd fod y Cyngor yn hapus i'r triathalon gael ei chynnal cyn belled fod y trefniadau rheoli traffig yr un fath.

iii) Yes Cymru – Annibyniaeth i Gymru – cynigwyd a eilwyd i drafod yr ymgyrch yn y cyfarfod. Cafwyd trafodaeth ond yn y diwedd cytunwyd i ohirio gwneud unrhyw benderfyniad tan y byddai mwy o aelodau y bresennol i gael lleisio eu barn.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

C18/0488/04/LL - Addasu adeiladau amaethyddol segur yn dy a 5 o fythynnod gwyliau. Tŷ Isaf, Llandderfel.
C19/0874/04/LL a C19/0876/04/CR – Trosi adeilad allanol yn 2 uned wasanaethol fel rhan o'r gwesty. Coach House, Pale Hall, Llandderfel.

vi) Materion Ariannol.

a) Archwiliad Blynyddol.

Derbyniwyd yr Adroddiad yn nol gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir ac nid oedd unrhyw fater yn codi o'r archwiliad. Cytunwyd i'w gymeradwyo. Cafwyd cadarnhad gan y Clerc ei bod wedi arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' yn y manau perthnasol.

b) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Medi a chafwyd yn gywir.

c) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog a Chostau'r Clerc (Gorff-Medi), TWE, Cytunwyd i dalu'r clerc am yr oriau ychwanegol a weithiwyd i greu polisïau newydd i'r mynwentydd a hefyd y gwaith ychwanegol o orchwylio mynwent Llandderfel.

ch) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd cais ariannol gan Hosbis Tŷ'r Eos. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

vii) Materion lleol.

a) Annibyniaeth i Gymru.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ychwanegu'r mater i agenda'r cyfarfod nesaf.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth,
Tachwedd 5ed yn Neuadd Mynach am 7.30 y.h.**